YW Trust

Adroddiad Blynyddol YWCA Cymru a Lloegr **2009-2010**

Kayleigh yn helpu merched i dorri'r arfer o oryfed

Sherelle yn curo'r bwlis ac yn cael addysg

ywca
women changing lives

Croeso

Mae'r YWCA yn gweithio gyda'r merched a menywod mwyaf difreintiedig yng Nghymru a Lloegr er mwyn eu helpu i oresgyn rhagfarn a chymryd rheolaeth dros eu bywydau eu hunain. Rydym yn cynnal gwasanaethau i'w cefnogi ac yn ymgyrchu gyda hwy i herio'r camwahaniaethu y maent yn ei wynebu.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi helpu **8,429** o ferched a menywod i newid eu bywydau.

Yn 2009 a 2010, helpwyd **428** o fenywod i ddygymod gyda chamddefnydd o gyffuriau neu alcohol. Daeth **250** atom i ddelio gyda thrais yn y cartref neu drosedd. Helpwyd **929** i wella eu sgiliau magu plant a dygymod â beichiogrwydd. Helpwyd **1,207** i ennill sgiliau newydd, symud ymlaen at addysg bellach neu ddod o hyd i waith, a **396** i ddygymod ag arian, dyled a digartrefedd.

Fy enw yw Kealy. Rwy'n 21 ac mae gen i ddau o blant. Cyn dod i'r YWCA, roeddwn yn byw mewn hostel. Roeddwn yn feichiog, ar goll, ac yn byw ar ychydig iawn. Cyfeiriodd fy mydwraig fi at yr YWCA ac o'r funud honno ymlaen, trodd fy mywyd er gwell.

Rwyf wedi dysgu sut i reoli fy arian, cael sgiliau bywyd newydd, cymryd rhan mewn cyrsiau a chyfarfod mamau ifanc eraill. Mae'r YWCA wedi rhoi cymaint o gyfleoedd i mi na fyddwn wedi eu cael fel arall. Cwrdd â Gordon Brown oedd uchafbwynt fy mywyd hyd yma, oherwydd cefais rannu fy marn gyda'r Prif Weinidog ar y pryd.

Mae'r YWCA wedi rhoi hyder i mi. Mae bod gyda menywod eraill yn ddiogel, oherwydd gallwn siarad am bethau nad oes modd eu trafod pan fo dynion o gwmpas. Mae bod yn rhan o'r YWCA wedi fy annog i helpu menywod ifanc eraill. Mae angen cymaint o gefnogaeth ac arian ag sy'n bosibl ar yr YWCA, i gadw elusen mor hanfodol i fynd. Helpu merched a menywod i newid eu bywydau yw'r hyn y maent yn ei wneud orau.

Diolch am gefnogi'r YWCA.

Kealy

Cynnwys

croeso	**2**
torri'r arfer	**4**
siarad am ryw	**6**
chwalu'r cylch	**8**
miss annibynnol	**10**
ein llwyddiannau	**12**
wrth galon y cyfan	**14**
cyfnodau o newid	**15**
cydnabyddiaeth	**15**
diolch	**16**

Rydym yn gweithio gyda merched a menywod i greu ymgyrchoedd a rhaglenni addysg cymheiriaid i daclo pynciau megis, er enghraifft, goryfed a'i effeithiau andwyol.

Cynorthwyodd Kayleigh, 23, i ddatblygu ein rhaglen addysg cymheiriaid sydd wedi'i gynllunio i annog merched i feddwl am y rhesymau pam eu bod yn yfed, a deall peryglon a goblygiadau yfed gormod. Meddai:

> "Dydyn ni ddim yn dweud wrth ferched am beidio ag yfed; rydym yn gofyn iddynt ystyried peryglon goryfed, a chymryd camau i fod yn ddiogel. Mae fy agwedd at yfed wedi newid ers dechrau'r prosiect hwn; rwy'n sylweddoli nawr fy mod wedi goryfed pan oeddwn yn iau. Drwy gyfranogi yn hyn, rwy'n cael boddhad o wybod i mi wneud gwahaniaeth mewn rhyw ffordd."

Siaradodd Kayleigh yng nghynhadledd y Blaid Lafur yn 2009 a chyfarfod cyffredinol blynyddol Cymdeithas Menywod y Ceidwadwyr.

Cynhaliwyd cynadleddau yn Llundain a Chaerdydd er mwyn uno pobl sy'n teimlo'n gryf am oryfed ac sydd eisiau atebion i'r broblem gynyddol gyffredin hon. Mae'r wybodaeth a gyflwynwyd yn y cynadleddau ar gael yn ein hadroddiad, Young women and alcohol, sy'n cyfuno ymchwil ac adolygiad llenyddiaeth. **Llwythwch i lawr** o'n gwefan. **www.ywca.org.uk/resources**

canfu ein hymchwil fod merched:

- angen pethau i'w gwneud a llefydd i fynd yn lle yfed. Mae'r YWCA yn cynnig gweithgareddau a chyrsiau mewn amgylchedd diogel, menywod yn unig
- yn yfed pan fo pethau'n mynd o'i le. Rydym yn rhoi cefnogaeth i'r rhai sydd heb bobl i ymddiried ynddynt
- angen negeseuon mwy effeithiol am beryglon alcohol. Rydym yn ymgyrchu dros negeseuon rhybudd cryfach ar alcohol, yn dangos y gwir beryglon i iechyd.

torri'r arfer

Ar gyfer merched a menywod yn y cymunedau mwyaf difreintiedig, mae camddefnydd o alcohol, diet gwael ac iechyd rhywiol gwael yn broblemau enfawr

Mae menywod ifanc o ardaloedd difreintiedig ymysg y rhai mewn mwyaf o berygl o oryfed. Mae ganddynt lai o gyfleoedd ac ychydig iawn o obeithion. Mae Lorna yn gwybod mor rhwydd yw cael gafael ar alcohol:

"Profais alcohol am y tro cyntaf yn 12 oed. Rwy'n aml yn gweld pobl yn eu harddegau yn yfed y tu ôl i siopau oherwydd does dim llawer i'w wneud yng Nghymru wledig. Ers dechrau dod i'r YWCA, rwyf wedi dysgu am yr hyn all ddigwydd wrth yfed, ac mae wedi gwneud i mi ailfeddwl."

Lorna, 15

y ffeithiau

- menywod y DU sydd â'r raddfa uchaf yn Ewrop o yfed alcohol
- gall yfed arwain at fentro gyda iechyd: mae treian o ferched 15 i 19 oed yn difaru cael rhyw ar ôl bod yn yfed
- mae'r nifer o bobl ifanc dan 16 oed sy'n cael eu derbyn i'r ysbyty yn sgil alcohol yn codi, ac yn gwneud hynny llawer cynt i ferched na bechgyn.

siarad am ryw

Dywed merched fod y wybodaeth a geir yn yr ysgol am ryw a pherthynas yn rhy ychydig, yn rhy hwyr, ac yn rhy fiolegol.

Mae angen gwybodaeth ddibynadwy, berthnasol am ryw, perthynas a rhyw diogel. Dyna'n rheswm dros gynnig **cefnogaeth ymarferol** megis **gwahodd nyrsys i siarad mewn grwpiau menywod ifanc**, **dosbarthu condomau** a **chynnig profion beichiogrwydd a chlamydia**.

Rydym yn ymgyrchu dros hawl sylfaenol pobl ifanc i gael gwybodaeth, cyngor ac arweiniad am ryw a pherthynas.

Mae'r YWCA yn arwain **Consortiwm Iechyd a Chydraddoldeb Menywod**, un o bartneriaid strategol yr Adran Iechyd. Rydym yn ymladd yn erbyn tlodi, camwahaniaethu ac eithriad cymdeithasol fel y gall menywod gael y gwasanaethau iechyd sydd eu dirfawr angen arnynt.

Mae beichiogrwydd yn ystod yr arddegau yn gymhleth, ac yn aml yn gysylltiedig gyda thlodi, diffyg hunan barch a chanlyniadau gwael yn yr ysgol. Rydym yn helpu mamau ifanc fel Naomi, a welir ar y chwith, i ddod yn addysgwyr cymheiriaid fel y gall pobl ifanc siarad am ryw yn rhydd ac agored:

“Mae’r merched yr wyf yn siarad gyda hwy yn teimlo rhyddhad o fedru siarad am y pwysau i gael rhyw. Gorau po ieuengaf yr ydym yn dysgu merched am y pethau hyn. Roedd fy addysg ryw i yn ofnadwy; daeth fy ngwybodaeth oddi wrth fy ffrindiau, ac roedd yn anghywir gan fwyaf. Dydy delweddau o enwogion yn dawnsio o gwmpas yn eu dillad isaf ddim yn ei gwneud yn hawdd, mae angen enghreifftiau cadarnhaol ar ferched.”
Naomi, 21

ffeithiau bywyd

- tyn y DU mae’r raddfa uchaf yn Ewrop o feichiogrwydd merched yn eu harddegau
- mae 40% o bobl ifanc 11 i 18 oed yn meddwl bod eu haddysg rhyw a pherthynas yn wael neu’n wael iawn
- mae’r mwyafrif o rieni yn eu harddegau yn byw mewn tlodi.

Roeddem yn ymgyrchu dros y **Ddeddf Cydraddoldeb** i amddiffyn merched ysgol beichiog a mamau yn eu harddegau rhag dioddef camwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth. Dywedodd mamau ifanc wrthym am eu profiadau, yn cynnwys cael eu cynghori i adael yr ysgol, peidio cael mynediad at gwricwlwm llawn, a chael eu hatal rhag sefyll arholiadau gan eu bod yn feichiog. Bellach mae ganddynt hawl cyfreithiol i gael yr un addysg â phawb arall.

Rydym wedi bod yn gweithio gydag ymddiriedolaethau gofal sylfaenol i ddatblygu gwasanaethau sy’n rhoi gwybodaeth, cyngor a chanllawiau angenrheidiol i bobl ifanc.

“Mae’r YWCA, a’r bobl ifanc a gyfranogodd wrth arolygu gwasanaethau iechyd rhywiol Northampton, wedi cynorthwyo i lunio datblygiad y strategaeth beichiogrwydd yn ystod arddegau ar gyfer 2010 a thu hwnt.”
Jane Waite, cydlynydd beichiogrwydd yn ystod arddegau Swydd Northampton

Mae'r mwyafrif o droseddwyr benywaidd yn derbyn dedfrydau byr o garchar, heb unrhyw oruchwyliaeth ar eu rhyddhau, felly maent mewn perygl o aildroseddu. Mae ein rhaglenni yn torri'r cylch hwn, gyda gwybodaeth, cyngor a chanllawiau mewn amgylchedd menywod yn unig i'r rhai sydd ei angen fwyaf; menywod fel Tina, a welir ar y dde, a gerddodd allan o garchar New Hall gydag ychydig iawn o ffrindiau a dim cyfleoedd. Pan ddaeth i'r YWCA, roedd ei dibyniaeth ar alcohol yn ei gosod mewn perygl o syrthio yn ôl i'w hen fywyd o drosedd. Meddai Tina:

"Byddwn yn ôl yn y carchar oni bai am yr YWCA. Maent yn fy helpu gyda'm biliau, sut i lenwi fy ffurflenni ac yn rhoi cyngor i mi ar bethau fel fy mhroblem diota. Maent wedi fy helpu i godi ar fy nhraed. Nawr rwy'n gobeithio cael swydd llawn amser a phrynu tŷ."

Yn aml mae gan ferched yn y cymunedau tlotaf lai i'w wneud a llai o obeithion. Mae angen enghreifftiau a gweithgareddau cadarnhaol arnynt

Dywed merched wrthym fod cael dim i'w wneud a dim unman i fynd yn arwain at ymddygiad troseddol.

Rydym yn cynnal cyrsiau a darparu gweithgareddau sy'n rhoi'r hunan hyder angenrheidiol i ferched. Prin iawn oedd hunan hyder Danielle, 17 oed, a welir yn y canol, pan oedd yn rhaid iddi ddelio gyda thrais yn y cartref a bwlio yn yr ysgol. Gyda chymorth yr YWCA, mae wedi newid o fod yn swil ac yn fewnblyg i gymryd rhan mewn gweithgareddau fel ein grŵp pêl-droed. Meddai:

"Does dim llawer i'w wneud yma. Mae yna glwb ieuenctid ond mae'r gangiau yno a dydy e ddim yn ddiogel. Mae'r YWCA wedi rhoi llawer o hyder i mi, ac yn fy nghadw oddi ar y stryd. Mae'r grŵp pêl-droed yn ffordd wych o gadw'n heini a chael hwyl. Hebddo, mae'n siŵr y byddwn yn eistedd do gwmpas heb wneud fawr ddim."

chwalu'r cylch

Mae menywod sy'n gaeth mewn cylch o drosedd yn agored i drais, camdriniaeth ac ecsbloetio

Mae troseddu yn aml yn deillio o dlodi, gadael yr ysgol yn gynnar, problemau iechyd meddwl, cam ddefnydd o sylweddau, trais, camdriniaeth, tor-teulu ac eithriad cymdeithasol. Rydym yn gweithio gyda throseddwyr i'w cynorthwyo i adennill hunan barch a datblygu sgiliau sy'n arwain at addysg a chyflogaeth.

y ffeithiau

- mae menywod yn cyflawni troseddau llai difrifol na dynion
- mae plant a phobl ifanc sy'n cael eu dedfrydu i garchar yn fwy tebygol o aildroseddu na rhai sy'n cael eu cyfeirio at ddedfrydau yn y gymuned
- mae 71% o droseddwyr benywaidd heb unrhyw gymwysterau o'i gymharu gyda 15% o'r boblogaeth gyffredinol.

Bydd 95% o'r menywod yr ydym yn gweithio gyda hwy yn llwyddo i beidio ag aildroseddu, o'i gymharu gyda'r cyfartaledd cenedlaethol o 45%

"Mae'r YWCA ar y blaen gydag ymyraethau gwell ar gyfer troseddwyr benywaidd, yn cynorthwyo menywod i ddangos eu potensial yn hytrach na chael eu labelu gan bobl."

Trevor Williams, Rheolwr Troseddwyr Rhanbarth Dwyrain Lloegr, Gwasanaeth Rheoli Troseddwyr Cenedlaethol

miss annibynnol

Mae angen gwell cyngor gyrfaoedd a mwy o gyfleoedd hyfforddi ar ferched. Rydym yn cynnig cyrsiau wedi'u hachredu, cyngor a hyfforddiant i'r rhai anoddaf cyrraedd atynt

Gall bwlio adael creithiau dwfn a chreu trafferthion i ferched fel Sherelle. Ar ôl cael ei herlyn yn yr ysgol, stopiodd Sherelle siarad. Gyda chymorth gweithwyr ieuenctid yr YWCA, mae wedi goresgyn hyn ac mae'n gweithio tuag at ddyfodol diddorol.

"Fe gymerodd amser ond gyda chymorth yr YWCA cefais fy hyder yn ôl. Dros y blynyddoedd rwyf wedi gwneud llawer o gyrsiau yn yr YWCA a bellach rwy'n helpu i'w cynnal. Mae un ohonynt, Miss Annibynnol, yn helpu menywod ifanc i ennill y sgiliau angenrheidiol i symud o'r ysgol i'r coleg. Rwyf yn y coleg, ac yn bwriadu mynd i'r brifysgol i astudio gwyddoniaeth fforensig."

Sherelle, 18

Rydym yn cynorthwyo menywod ifanc fel Sherelle i godi eu lleisiau gydag awdurdodau. Siaradodd gyda'r panel Mynediad Teg at Swyddi ynglŷn â'r rhwystrau sy'n atal menywod ifanc o gymunedau difreintiedig rhag cael gyrfa broffesiynol.

Gall bywyd sydd eisoes yn wyllt ddod yn anoddach fyth i ferched sy'n gadael yr ysgol yn gynnar; nifer heb obaith am y dyfodol. Mae Nemone, dwy ar bymtheg oed, yn gwybod hyn:

"Mae llawer o bethau wedi mynd o'i le yn fy mywyd; Gadewais yr ysgol yn 15 oed, ac roedd yn anodd dygymod. Syrthiais yn feichiog, ond collais y babi. Mae'r YWCA yn sicr yn gwneud gwahaniaeth yn fy mywyd: Rwy'n gwneud cwrs mynediad at gyflogaeth, mae gennyf CV ac rwyf am ddod o hyd i waith."

Rydym yn ymgyrchu i herio ystrydebau rhyw, gwella'r lleiafswm cyflog cenedlaethol a dylanwadu ar bolisïau ar gyfer y rhai nad ydynt mewn cyflogaeth, addysg na hyfforddiant. Mae ein diwrnodau gyrfaoedd a rhaglenni wedi'u hachredu yn annog merched i ystyried gyrfa tu hwnt i'r hyn sy'n draddodiadol yn cael ei ystyried fel 'gwaith menywod'

Mae 45% o'r bobl ddi-waith yng Nghymru dan 25 oed

Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, cyflogwyr lleol a mudiadau eraill i gael gwaith i fenywod ifanc. Mae swyddi traddodiadol menywod yn aml yn rai cyflog isel, heb eu parchu. Mae hyn yn wir iawn am brentisiaethau lle mae 21% o fwlch rhwng cyflogau'r rhywiau, ac mae'r sectorau cyflog isaf, yn cynnwys trin gwallt, gofal plant, iechyd a gofal cymdeithasol, yn bennaf yn llawn merched. Cyfrannodd ein gwaith gyda'r Comisiwn Cyflog Isel at gyflwyno **Isafswm Cyflog Prentisiaeth**.

Pan fo arian yn brin, yn aml merched o'r cymunedau tlotaf sy'n dioddef. Mae nifer yn byw ar incwm difrifol o isel ac yn wynebu dyledion a thlodi tymor hir. Rydym yn cynnal cyrsiau sy'n caniatáu iddynt gymryd rheolaeth o'u harian. Meddai Chanel, 18, chwith:

"Nid oes unrhyw un wedi trafod rheolaeth ariannol gennyf o'r blaen. Mae cwrs yr YWCA wedi rhoi dealltwriaeth glir i mi sut i drin arian, yn arbennig budd-daliadau, benthyciadau a chardiau credyd."

ein llwyddiannau

Rhwng Ebrill 2009 a Mawrth 2010 gwariwyd £5.7 miliwn yn gweithio'n uniongyrchol gyda 8,429 o ferched a menywod yn ein canolfannau ac yn eu hysgolion a chymunedau. Gwariwyd £0.4m arall ar ein gwaith ymchwil ac ymgyrchu, yn cynnwys rhoi cyfle i fenywod gyfarfod gwleidyddion, yn cynnwys y Prif Weinidog ar y pryd Gordon Brown, ac awdurdodau eraill wyneb yn wyneb.

Yn ystod y flwyddyn, derbyniwyd £3.6m fel grantiau neu gytundebau gan lywodraeth leol, genedlaethol ac Ewropeaidd neu ymddiriedolaethau elusennol, i gefnogi ein gwaith yn uniongyrchol. Derbyniwyd £1.1m arall fel cyfraniadau gan gefnogwyr, ewyllysiau ac incwm buddsoddiadau. Gwariwyd £0.8m i gefnogi'r gweithgaredd codi arian yma.

Yn ôl y cynlluniau, ariannwyd gweddill ein gwaith drwy ddefnyddio £2.3m o'n harian buddsoddiadau. Codwyd y mwyafswm o'r arian drwy werthu adeiladau a oedd yn cael eu defnyddio cyn hyn fel hostelau. Mae'r arian hwn bron i gyd wedi'i wario, felly yn y dyfodol bydd angen i fwyafswm ein gwariant gael ei dalu drwy gyfraniadau, grantiau a chytundebau newydd.

Hefyd mae gennym gronfeydd gwaddol, a oedd werth £19m ar 31 Mawrth 2010. Maent yn hanfodol ar gyfer ein cryfder ariannol, gan ein bod yn disgwyl iddynt gynhyrchu incwm i gefnogi ein gwaith bob blwyddyn, nawr ac yn y dyfodol. Maent yn cael eu cadw yn y tymor hir mewn portffolio o asedau cymysg. Yn ystod y flwyddyn cododd gwerth sylfaenol y buddsoddiadau hyn o £6.0m, wrth i farchnadoedd adfer ar ôl argyfwng ariannol 2008 i 2009. adroddiadau ariannol a chyfrifon ar gael ar eich cais

"Hoffwn ddweud wrth bobl fod yr YWCA yn newid bywydau pobl ac yn gwneud gwahaniaeth mawr. Mae'n le diogel i fynd ac rydym yn dysgu cymaint am ein hunain, sut i ddygymod a'r ffordd mae'r byd yn gweithio."

Charlotte, 16, De Cymru

"Rwy'n cefnogi'r YWCA oherwydd rwyf am helpu merched a menywod i symud oddi wrth fywyd o eithriad cymdeithasol. Mae'r YWCA yn gwneud gwahaniaeth, felly rwy'n gwybod fod fy arian yn cael ei wario'n dda."

Diane Perry, cefnogwr YWCA

Gwariant ein harian



Gwasanaethau 81%

Polisi, ymchwil ac ymgyrchoedd 6%

Cynhyrchu cyllid 11%

Llywodraethu 2%

O ble ddaeth ein harian



Grantiau a chytundebau 51%

Gwerthu buddsoddiadau 33%

Incwm buddsoddiadau 10%

Cyfraniadau ac incwm arall 6%

wrth galon y cyfan

Merched a menywod sydd wrth galon yr YWCA. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae **751** wedi ein helpu i ymgyrchu, codi ein proffil, datblygu'r themâu ar gyfer ein gwaith a recriwtio staff. Rydym yn rhoi sgiliau a hyder i'r rhai sy'n straffaglu i godi eu lleisiau, fel bod modd iddynt siarad yn uniongyrchol gydag ASau a gweinidogion, rhoi cyfweliadau gyda'r cyfryngau, cynnal digwyddiadau a chynnal sesiynau grŵp.

I helpu menywod sy'n defnyddio ein gwasanaethau i gyfranogi mwy gyda'r YWCA, datblygwyd ein safle rhwydweithio, **our voice**, cymuned ddiogel ar-lein lle gall merched wneud ffrindiau newydd a siarad am faterion pwysig iddynt hwy.

Diolch i'r holl fenywod ifanc sy'n ymddangos yn yr adolygiad blynyddol hwn

cyfnodau o newid



Yn 1855 ffurfiwyd yr YWCA gan fenywod Cristnogol fel rhan o fudiad lles elusennol cenedlaethol. Dros y blynyddoedd rydym wedi datblygu i adlewyrchu newidiadau mewn cymdeithas ac anghenion menywod. Bellach mae'n amser newid eto; y tro hwn o ran ein henw gweithredol. Ddiwedd 2010 byddwn yn ail lansio ein hunain dan enw newydd. Byddwn yn rhoi mwy o wybodaeth yn hwyrach yn y flwyddyn.

dyma adroddiad blynyddol

YWCA Cymru a Lloegr, cwmni cyfyngedig dan warant ac elusen gofrestredig. Mae'r bwrdd ymddiriedolwyr yn gweithredu fel cyfarwyddwyr y cwmni.

prif swyddfa a swyddfa gofrestredig
Clarendon House
52 Cornmarket Street
Rhydychen OX1 3EJ
Ffôn 01865 304200
Ebost info@ywca.org.uk
www.ywca.org.uk
Rhif elusen 217868
Rhif cwmni 137113

noddwr
Ei Mawrhydi'r Frenhines

is-noddwr
Ei Huchelder Brenhinol y Dywysoges Alexandra, Yr Anrhydeddus Foneddiges Ogilvy, GCVO

prif weithredwr
Sarah Payne

cadeirydd bwrdd yr ymddiriedolwyr
Helen Wollaston

archwilwyr
Buzzacott

cyfreithwyr
Stafford Young Jones

ymgynghorwyr buddsoddiadau
Blackrock Investment Managers
Rensburg Sheppards Investment Managers
Cazenove Capital Management
Mayfair Capital Investment Management
Schroders & Co

awdur justYW
Judy Horne

lluniau justYW
Jules Selmes, Siobhan Lorgena a staff YWCA

dylunio justYW
Stafford and Stafford

Mae cyfeirnodau ar gael ar gyfer yr holl ffeithiau a ffigurau yn y ddogfen hon

diolch i'n holl noddwyr.

Eich cefnogaeth chi sy'n cyflawni'r cyfan! Dyma rai yn unig o'r rhai a'n helpodd, a'r hyn a ariannwyd

Cyngor Dinas Bryste – prosiect *increasing aspirations*; Partneriaeth Addysg Wolverhampton – prosiect Young People@the Centre; Ymddiriedolaeth Elusennol William A Cadbury –gwaith addysg anffurfiol yn Wolverhampton; Cyngor Sgiliau Dysgu, VC Train – ein prosiect diweithdra yn Doncaster a *Wise Up* yng ngorllewin Llundain; Ysgol All Saints School yn Kirkby – ein prosiect A2O; The Henry Smith Charity – datblygiad personol yn Northampton; ac Ymddiriedolaeth Paul Hamlyn – ein rhaglen MySpace mewn ysgolion yn St Helens.

Arian i Bawb Cronfa Loteri Fawr (CLF) - DVD iechyd ar gyfer mamau ifanc ym Mryste; Yr Adran Iechyd - Iechyd a Chydraddoldeb Menywod; Black Country Connexions - Gweithgareddau Cadarnhaol ar gyfer pobl ifanc yn Wolverhampton; The Quartet Community Foundation - Gofal Plant a Chynghori ym Mryste; Cyngor Bwrdeistref Metropolaidd Doncaster - prosiect iechyd meddwl; Well London a'r PCT lleol - cyrsiau Tyfu, Coginio, Bwyta yn Dagenham. The City Bridge Trust - agweddau cyfrifol at berthynas ac iechyd rhywiol yn nwyrain Llundain; a'r Sefydliad Wates a gefnogodd ein rhaglen Dinasyddion Cyfrifol.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – Siop Un Stop yn Nwyrain Llundain a Wolverhampton, a gyda'r Sefydliad Tai – Prosiect *Together Women* yn Doncaster; Cronfa Gymunedol y Swyddfa Gartref– Merched a Gangiau yn Kirkby; Ymddiriedolaeth Pobl Caint – rheoli dicter; Black Country Connexions – Gweithgareddau Cadarnhaol i Bobl Ifanc yn Wolverhampton.

Pollock Memorial Missionary Trust – prosiect cynhwysiad ariannol yn Doncaster; Russet Homes – Hyfforddiant tenantiaeth; Tonbridge and Malling Voluntary Grant Aid – cefnogaeth dyledion.

Cronfa Genedlaethol Pobl Ifanc CLF – Llais i Fenywod ifanc; Cronfa Leol Pobl Ifanc CLF – Mentora Cymheiriaid a Chyfeillachu yn Wolverhampton; v. – Young Women Can Achieve volunteering; The Co-operative Foundation – Y Gwir am Ieuenctid yng Nghaerdydd; Llywodraeth Cynulliad Cymru – digwyddiad Diwrnod Rhyngwladol Menywod a chynhyrchu DVD ar fenywod mewn gwleidyddiaeth yng Nghwmafan; the Childwick Trust – prosiect WILD yn Doncaster; cefnogodd PCT Doncaster eu prosiect sipsiwn a theithwyr.

Rhdym hefyd yn ddiolchgar am gefnogaeth cronfa Ymrymuso yr Adran dros Blant, Ysgolion a Theuluoedd a'r Adran dros Gymunedau a Llywodraeth Leol. Yn olaf, diolch i'r cyfranwyr unigol a roddodd gyfanswm o £380,000.